




Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales



Yr Academi
Gymreig
The Welsh
Academy

Memorandum o Ddealltwriaeth Rhng Llenyddiaeth Cymru a'r Academi Gymreig

Ar gyfer y cyfnod amser 2016/17

Mae'r ddogfen yn cydnabod diddordebau ac amcanion cyffredin Llenyddiaeth Cymru a'r Academi Gymreig ac yn disgrifio bwriad y ddau sefydliad i gydweithio a rhannu gwybodaeth mor gyflawn ag sydd yn bosibl er mwyn cwrdd ag ein hamcanion cyffredin yn y ffordd orau.

Datganiad Lobïo

Mae'r Academi Gymreig wedi mynegi diddordeb mewn lobïo ynghylch materion sy'n allweddol i fuddiannau llenorion Cymru a'u gwaith. Mae'r Academi Gymreig yn annibynnol yn ei reolaeth a'i weithgarwch ac nid yw ei lobïo gwleidyddol na'i ddatganiadau yn adlewyrchu barn neu safbwynt Llenyddiaeth Cymru mewn unrhyw ffordd.

Cefndir a Hanes y Berthynas

Sefydlwyd yr Academi Gymreig yn 1959 yn dilyn sgysiau rhng **Bobi Jones** a **Waldo Williams**. Prif amcan y gymdeithas yn dilyn y cyfarfod cyntaf ym 1960, oedd sefydlu cylchgrawn llenyddol Cymraeg. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o *Taliesin* gan yr Academi Gymreig ym 1961. Crëwyd yr adran Saesneg ei hiaith yn 1968 o ganlyniad i fenter gan **Meic Stephens** mewn cydweithrediad â'r Guild of Welsh Writers.

Yn 1998 ymgwymerodd Yr Academi Gymreig â maes llafur helaethach o lawer pan enillodd gytundeb Cyngor Celfyddydau Cymru i ddarparu Asiantaeth Genedlaethol i Hybu Llenyddiaeth Cymru. Enw'r Asiantaeth hon oedd Academi. Bu Academi, a oedd bellach wedi trawsnewid a thyfu cryn dipyn, yn cynnig arlwyath lenyddol ar hyd a lled Cymru tan 2011, pan ymunodd â Chanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd er mwyn creu sefydliad cenedlaethol newydd a elwir yn Llenyddiaeth Cymru.

Diogelwyd hunaniaeth unigryw'r Academi Gymreig fel cymdeithas llenorion Cymru, o fewn Academi. Parhawyd i ddiogelu'r hunaniaeth yn sgîl datblygiad Academi i fod yn Llenyddiaeth Cymru ac mae'r gymdeithas yn parhau i fod yn annibynnol yn ei reolaeth a'i weithgarwch. Tra mae Llenyddiaeth Cymru yn darparu cefnogaeth weinyddol i'r Academi Gymreig, nid oes perthynas rheolaeth rhyngddynt ac mae prosesau penderfynu, rheolaeth a gweithgarwch y ddau gorff yn annibynnol ar ei gilydd.

Yr Academi Gymreig

Diben yr Academi Gymreig yw:

- Dathlu cyfraniad llenorion Cymru;
- Lobio ynghylch materion sy'n allweddol i fuddiannau llenorion Cymru a'u gwaith;
- Meithrin y gymuned o lenorion yng Nghymru;
- Darparu cymorth eirioli i lenorion Cymru;
- Cefnogi datblygiad gyrfaol llenorion Cymru.

Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol ar gyfer datblygu llenyddiaeth ac, o ganlyniad, yw'r prif hwylusydd a datblygydd gweithgarwch llenyddol y sector yng Nghymru.

Cred Llenyddiaeth Cymru bod llenyddiaeth yn perthyn i bawb ac ar gael ymhobman. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid ac yn ddwyieithog mewn ystod eang o gymunedau er mwyn sicrhau bod llenyddiaeth yn cynnig llais i bawb.

Rydym yn credu ym mhwysigrwydd galluogi pobl, grwpiau a chymunedau i ddatblygu rhaglenni llenyddiaeth, digwyddiadau a chynlluniau y mae arnynt eu heisiau a'u hangen yn eu hardaloedd eu hunain, drwy ddarparu'r offer a'r gefnogaeth angenrheidiol. Gall llenyddiaeth newid, gwella a chyfoethogi bywydau pobl. Mae'n cyfrannu at ddatblygu sgiliau, cyflogadwyedd, iechyd a chysylltiad cymdeithasol.

Mae Llenyddiaeth Cymru'n rhoi llenyddiaeth wrth galon ein rhaglenni sy'n ymwneud â lles, llythrennedd, cyflogaeth a sgiliau ac yn gweithio i sicrhau y caiff llenyddiaeth ei hystyried fel rhan hanfodol o fywyd cytbwys, cyfranogol ac iach.

Mae Cynllun Busnes newydd Llenyddiaeth Cymru yn amlinellu Cymorth i Awduron fel amcan strategol allweddol:

Cymorth i Awduron

Datblygu a chefnogi awduron ym mhob cam o'r siwrne ysgrifennu i gyrraedd eu potensial llawn

Byddwn yn:

- *Cynnig cymorth i awduron fel gallant ragori*
- *Annog awduron i arloesi ac arbrofi yn eu gwaith*
- *Datblygu cyfleoedd ymarferol a datblygol penodol i awduron ifanc*

Mae Llenyddiaeth Cymru yn ystyried yr Academi Gymreig yn bartner allweddol i gwrdd â'r amcanion hyn yn y ffyrdd canlynol:

- Meithrin cymuned lenyddol gref, gweithgar a chysylltiedig o fewn Cymru.
- Annog ymroddiad, cydweithio ac aelodaeth awduron newydd ar draws genres llenyddol.

I'r perwyl hyn, mae Llenyddiaeth Cymru yn ymrwmo i gynnig cymorth ac adnoddau ar y lefel canlynol:

- Cymorth gweinyddol dwyieithog “in-kind” ar gyfer hyd at ddau gyfarfod pwyllgor y flwyddyn (mae'r cymorth yn cynnwys yr holl gyfathrebiadau, staffio'r cyfarfodydd, paratoi'r agenda a'r cyfarfodydd, cofnodion a darpariaeth lleoliad cost niwtral).
- Gweinyddiaeth sylfaenol o danysgrifiadau aelodaeth (Aelodau Llawn a Chymrodyr yn unig: gan gynnwys prosesu ac adrodd ariannol).
- Gweithredu fel pwynt cyswllt i aelodau Pwyllgor Yr Academi Gymreig (YAG).
- Gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng aelodau YAG / awduron â diddordeb ym materion YAG.
- Galluogi YAG i gomisiynu ymgynghorydd allanol i baratoi Model Busnes Cynhaliol gan ddefnyddio hyd at £5000 o gronfa cymunrodd Glyn Jones.

Mae'r trefniadau ariannol fel a ganlyn:

- Llenyddiaeth Cymru i dderbyn ffi o 50% o danysgrifiadau Aelodau Llawn a Chymrodyr i gyfanswm o £2,500 fel cyfraniad tuag at gost gweinyddu. YAG i reoli gweddill y gronfa fel ei gyllideb flynyddol.
- YAG i gwrdd â phob cost na ddarperir 'in-kind' gan Llenyddiaeth Cymru (e.e. arlwyfaeth, llogi manau cyfarfod, cyfieithu ar y pryd, costau teithio'r pwyllgor a siaradwyr ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau, ffioedd awduron).
- Pwyllgor YAG i fod yn gyfrifol am yr holl weithgarwch a chynllunio digwyddiadau, darpariaeth, marchnata uniongyrchol a gwerthuso, unrhyw ymgyrchoedd tanysgrifio ac atoffa ynglŷn ag ail-ymaelodi.

Mae'r ddau bartner yn cytuno i:

- Hysbysu ei gilydd o'u gweithgareddau a digwyddiadau i sicrhau nad ydynt yn gwrthdaro parthed cynnwys, dyddiadau neu gynulleidfaoedd ac, yn hytrach, yn cryfhau a chefnogi ei gilydd.
- Nodi ffyrdd i'r partneriaid gyd-weithio i wireddu amcanion strategol yn well parthed rhannu gwybodaeth, marchnata/cyhoeddusrwydd ar y cyd pan yn briodol a rhannu adnoddau.
- Cwrdd ddwywaith y flwyddyn er mwyn diweddarau ei gilydd o newidiadau i'r cynllun busnes, statws prosiectau a chynlluniau ac i rannu gwybodaeth ac arfer da.
- Cefnogi gweithgarwch ei gilydd a llythyrau o gefnogaeth, cysylltiadau defnyddiol a marchnata pan yn briodol.
- Cyd-weithio ar ddigwyddiadau a gweithgarwch pan mae'n fuddiol ac yn briodol i'r naill a'r llall.
- Adolygu'r Memorandwm hwn yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i gyflawni ei fwriad

Rydym ni, sydd wedi arwyddo isod, wedi darllen a deall y Memorandwm o Ddealltwriaeth hwn.

Arwyddwyd ar ran Yr Academi Gymreig a Llenyddiaeth Cymru: Mehefin 2016